ACHREDU AMGUEDDFEYDD

MUSEUM ACCREDITATION

Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau yn y DU

# Safon Achredu

Tachwedd 2018

# Contents

**Cynnwys** ........ 2

**Beth yw diben y Cynllun Achredu Amgueddfeydd?** ........ 2

**Gofynion sylfaenol**

**Iechyd Sefydliadol** ........ 3

1. Trefniadau llywodraethu a rheoli priodol ........ 3
2. Cynllunio ymlaen llaw a bod gennych chi'r adnoddau i gyflawni'ch cynllun ........ 4
3. Asesu a rheoli risg i'ch sefydliad ........ 5

**Rheoli Casgliadau** ........ 6

4. Cadw a datblygu casgliadau ........ 6
5. Cadw gwybodaeth ddefnyddiol a defnyddiadwy am gasgliadau ........ 7
6. Gofal a chadwraeth casgliadau ........ 8

**Defnyddwyr a'u profiadau** ........ 9

7. Bod yn hygyrch i'r cyhoedd ........ 9
8. Deall a datblygu'ch cynulleidfaoedd ........ 10
9. Cynnwys eich defnyddwyr, a gwella eu profiadau ........ 11

# Cynnwys

Safon diwydiant y DU ar gyfer amgueddfeydd ac orielau yw'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd.

Mae'n dweud wrth bawb sy'n ymwneud ag amgueddfa eu bod nhw'n gwneud y pethau iawn i helpu pobl i ymgysylltu â chasgliadau a'u diogelu at y dyfodol.

Mae'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd yn gwneud hyn trwy ofalu bod amgueddfeydd yn rheoli eu casgliadau'n iawn, yn ymgysylltu ag ymwelwyr, ac yn cael eu llywodraethu'n briodol.

Mae'r cynllun yn addas i amgueddfeydd o bob maint: o'r rhai lleiaf sydd yn nwylo gwirfoddolwyr i amgueddfeydd cenedlaethol. Nid yw'n gynllun 'un ateb sy'n addas i bawb' fodd bynnag: byddwn yn asesu'ch cais yn ôl maint eich amgueddfa a'r math o amgueddfa yw hi. Fe gewch chi arweiniad clir gennym i'ch helpu i wneud hynny.

## Beth yw diben y Cynllun Achredu Amgueddfeydd?

Annog pob amgueddfa ac oriel i fodloni safonau y cytunwyd arnynt o safbwynt:

- sut maen nhw'n cael eu rheoli
- sut maen nhw'n rheoli eu casgliadau
- sut maen nhw'n ymgysylltu â'u defnyddwyr

Meithrin hyder y cyhoedd o ran sut mae amgueddfeydd yn rheoli casgliadau er budd cymdeithas, a sut maen nhw'n rheoli adnoddau cyhoeddus.

Atgyfnerthu'r ffordd foesegol, ar y cyd, o wneud pethau i bawb sydd ynghlwm wrth reoli amgueddfa.

# 1 Trefniadau llywodraethu a rheoli priodol

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

### 1.1
### Datganiad clir o bwrpas

Rhaid bod gan eich amgueddfa ddatganiad o bwrpas sy'n diffinio pam mae'n bodoli ac er lles pwy mae'n bodoli.

### 1.2
### Cyfansoddiad priodol

Rhaid i'r amgueddfa fod yn sefydliad tymor hir sy'n bodoli er lles y cyhoedd ac sy'n gwarchod ei hasedau, gan gynnwys casgliadau. Rhaid bod ganddi gyfansoddiad priodol a dderbyniol a dogfennau ar gyfer y corff llywodraethu.

### 1.3
### Strwythur boddhaol ar gyfer eich rheoli a llywodraethu

Mae hynny'n golygu dangos y canlynol i ni:

- siart y sefydliad sy'n dangos yr holl bobl sy'n gweithio yn yr amgueddfa, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff cyflogedig, yn cwmpasu pawb o'r staff blaen y tŷ i'r corff llywodraethu, a'r berthynas rhyngddyn nhw. Os mai sefydliad ar wahân sy'n rhedeg yr amgueddfa, mae angen inni weld unrhyw gytundebau cymeradwy rhwng y sefydliad hwnnw a'r corff llywodraethu
- pwy sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb i gymeradwyo penderfyniadau. Gall hyn gynnwys penderfyniadau rydych chi'n eu dirprwyo i is-bwyllgorau, staff neu wirfoddolwyr
- cytundebau clir â'ch staff a gwirfoddolwyr sy'n cyflwyno eu rolau a'u cyfrifoldebau
- tystiolaeth i ddangos bod eich corff llywodraethu yn gallu elwa ar gyngor proffesiynol yr amgueddfa.

# 2 Cynllunio ymlaen llaw a bod gennych chi'r adnoddau i gyflawni'ch cynllun

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**2.1**

### Blaengynllun neu gynllun busnes sy'n cynnwys y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol

Rhaid i'ch amgueddfa gynllunio'n effeithiol ar gyfer yr hirdymor a gallu addasu mewn amgylchedd sy'n newid. Rhaid i'ch blaengynllun neu'ch cynllun busnes gael ei gymeradwyo gan eich corff llywodraethu a dylai:

- gynnwys datganiad o fwriad eich amgueddfa
- nodi'n gwbl glir pa gyfnod sy'n rhan o'r cynllun
- nodi'r prif amcanion i'w cyflawni gydol oes y cynllun
- egluro sut fyddwch chi'n cyrraedd y nodau hyn
- esbonio beth fyddwch chi ei angen i gyrraedd y nod, gan gynnwys pobl, cyfarpar ac arian
- cynnwys cyllidebau ar gyfer y flwyddyn gynllunio gyfredol a dilynol
- cynnwys dyddiad adolygu nesaf y cynllun

**2.2**

### Cynaliadwyedd ariannol

Dylai'ch amgueddfa ddarparu cyfrifon am y ddwy flwyddyn gynllunio ddiwethaf yn dangos incwm a gwariant.

# 3 Asesu a rheoli risg i'ch sefydliad

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**3.1**

## Meddiannaeth ddiogel o bob adeilad sy'n cynnwys casgliadaus

Dylech fod â thelerau meddiannaeth ffurfiol ar gyfer eich adeiladau a'ch safleoedd. Dylai'r trefniadau fod yn ddigon i ddangos eich casgliadau sy'n cael eu harddangos a'u storio yn ddiogel, er mwyn caniatáu gwaith blaengynllunio effeithiol. Dylai'r trefniadau hyn fod yn rhai hirdymor, sy'n golygu o leiaf 12 mis fel arfer.

**3.2**

## Asesiad risg o drefniadau diogelwch

Dylech gael cyngor diogelwch ar gyfer holl adeiladau a safleoedd yr amgueddfa. Dylech wneud hyn bob pum mlynedd o leiaf, a dylai'r cyngor gynnwys:

- trefniadau ar gyfer eich staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr
- eich casgliadau sy'n cael eu storio a'u harddangos
- eich adeiladau a'ch safleoedd

Dylai'r cyngor fod yn gymesur i faint, cwmpas a gwerth eich amgueddfa a'ch casgliadau, a pha mor agored i niwed ydyn nhw. Dylech ddangos pa newidiadau rydych chi wedi'u gwneud neu eu cynllunio yn sgil y cyngor.

**3.3**

## Cynllun argyfwng clir ac ymarferol

Dylai'ch amgueddfa allu ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd o argyfwng neu drychineb. Mae hynny'n golygu cael cynllun argyfwng, sy'n rhoi sylw i bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau a gwasanaethau, a dylai gynnwys:

- trefniadau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, ymwelwyr, casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau
- asesiad risg o'r peryglon
- sut rydych chi'n awdurdodi, cynnal, cyfathrebu a phrofi'ch cynllun argyfwng, a sut rydych chi'n ei rannu â'ch staff a gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau brys
- sut mae'ch amgueddfa'n gweithio gyda'r gwasanaethau brys, ac unrhyw gynlluniau argyfwng perthnasol eraill
- rhestr o flaenoriaethau - a chofnod o unrhyw gasgliadau â blaenoriaeth y byddech chi'n eu hachub gyntaf mewn argyfwng
- pryd fyddwch chi'n adolygu'ch cynllun argyfwng

# 4 Cadw a datblygu casgliadau

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**4.1**

### Ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr holl gasgliadau rydych chi'n eu rheoli

Rhaid i chi allu dweud wrthym beth yw maint eich casgliadau, y gyfran sy'n eiddo i'r amgueddfa ac sydd ar fenthyg iddi. Os yw cyfran helaeth o'r casgliad ar fenthyg, byddwch angen egluro'r trefniadau benthyg sydd ar waith ac asesu unrhyw risgiau.

**4.2**

### Polisi, wedi'i ddatblygu gan y corff llywodraethu, ar gyfer datblygu casgliadau, gan gynnwys caffael a gwaredu

Rhaid i'ch polisi datblygu casgliadau gynnwys:

- datganiad o bwrpas yr amgueddfa
- crynodeb o'r casgliadau cyfredol
- themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu yn y dyfodol
- themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu
- gwybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gaffael a gwaredu eitemau
- y dyddiad nesaf y byddwch chi adolygu'r polisi

# 5 Cadw gwybodaeth ddefnyddiol a defnyddiadwy am gasgliadau

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**5.1**

## Polisi dogfennaeth cymeradwy

Rhaid i'ch amgueddfa ddilyn polisi dogfennaeth casgliadau wedi ei gymeradwyo gan eich corff llywodraethu.

Gallai'r polisi fod yn bolisi neu ddatganiad ar wahân, neu'n rhan o gynllun neu ddogfen rheoli casgliadau ehangach.

**5.2**

## Dilyn gweithdrefnau dogfennaeth sylfaenol Spectrum

Mae gweithdrefnau sylfaenol Spectrum yn hanfodol i reoli casgliadau'n effeithiol a'u gwneud yn hygyrch i bawb. Bydd angen i chi ddangos bod eich amgueddfa yn dilyn y gweithdrefnau hyn neu'n bwriadu gwneud hynny. Gweithdrefnau sylfaenol Spectrum yw:

- gwrthrychau sy'n cyrraedd
- caffael a derbyniadau
- lleoliad a rheoli symudiadau
- rhestr eiddo
- catalogio
- gwrthrychau sy'n gadael
- benthyciadau i mewn (benthyca gwrthrychau)
- benthyciadau allan (rhoi gwrthrychau ar fenthyg)
- cynllunio dogfennaeth

Bydd angen i chi ddangos sut rydych chi'n rhoi gweithdrefnau sylfaenol Spectrum ar waith a sut rydych chi'n bwriadu datblygu'ch dogfennaeth casgliadau gyda chynllun ysgrifenedig yn dangos blaenoriaethau ac amserlenni.

Os byddwn ni'n gofyn amdano, rhaid i chi allu dangos eich llawlyfr gweithdrefnau dogfennaeth a ddylai gynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam ar gwblhau gweithdrefnau Spectrum yn eich amgueddfa.

# 6 Gofal a chadwraeth casgliadau

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**6.1**
### Polisi cymeradwy ar ofal a chadwraeth casgliadau

Rhaid bod gan eich amgueddfa bolisi gofal a chadwraeth wedi'i gymeradwyo gan eich corff llywodraethu.

Dylai ddangos sut mae gweithgareddau gofal a chadwraeth eich amgueddfa yn gysylltiedig â'ch datganiad o bwrpas craidd. Dylai fodloni ymrwymiad moesegol a gofynion cyfreithiol.

Gallai'r polisi hwn fod yn bolisi neu'n ddatganiad gofal a chadwraeth ar wahân neu'n rhan o fframwaith rheoli casgliadau ehangach, cynllun gofal a chadwraeth, neu yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

**6.2**
### Cynllun gofal a chadwraeth casgliadau

Rhaid bod gan eich amgueddfa gynllun i gynnal a, lle bo modd, gwella'ch ffordd o ofalu am eich casgliadau a'u cadw.

Gallai'r cynllun hwn fod yn gynllun gofal a chadwraeth ar wahân, yn rhan o fframwaith rheoli casgliadau cyffredinol neu yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

# 7 Bod yn hygyrch i'r cyhoedd

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

## 7.1
### Polisi mynediad cymeradwy

Rhaid bod gan eich amgueddfa bolisi neu ddatganiad mynediad wedi'i gymeradwyo gan eich corff llywodraethu. Dylai gynnwys sut y gall pobl weld, defnyddio a chyfeirio at eich casgliad, cael mynediad i adeiladau a safleoedd eich amgueddfa, a sut rydych chi'n rhannu gwybodaeth am y casgliad gyda phobl. Dylai gynnwys:

- defnyddio amrywiaeth o ddulliau dehongli i arddangos y casgliadau.
- darparu mynediad cyhoeddus i'r casgliadau, adeiladau a safleoedd, a gwybodaeth gysylltiedig
- y dyddiad nesaf y byddwch yn adolygu'r polisi

## 7.2
### Cynllun mynediad

Rhaid bod gan eich amgueddfa gynlluniau i gynnal, a lle bo modd, gwella:

- y mynediad ffisegol, synhwyraidd a deallusol at eich casgliadau
- gwybodaeth am eich casgliadau
- mynediad i adeiladau sy'n cynnwys eich casgliadau

Gall fod mewn cynllun mynediad ar wahân, neu'n rhan o'ch blaengynllun neu'ch cynllun busnes neu mewn cynllun datblygu cynulleidfaoedd.

# 8 Deall a datblygu’ch cynulleidfaoedd

*Er mwyn bodloni’r safon, byddwch angen:*

### 8.1
### Deall pwy sy’n defnyddio’ch amgueddfa, a phwy sydd ddim

Rhaid i’ch amgueddfa allu dangos pwy sy’n defnyddio’r amgueddfa a’r casgliadau. Dylech hefyd allu dweud pwy sydd ddim yn ei defnyddio. Dylai bod gennych ffyrdd penodol o gasglu’r wybodaeth hon, yn ogystal â dysgu am anghenion a disgwyliadau pobl o’ch amgueddfa.

### 8.2
### Defnyddio gwybodaeth er mwyn asesu anghenion eich defnyddwyr

Dylai’ch amgueddfa ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr er mwyn helpu i ddatblygu’r amgueddfa a’i rhaglenni.

### 8.3
### Cynllun i ddatblygu’ch ystod o ddefnyddwyr

Byddwch angen cynllun er mwyn datblygu’ch ystod o ddefnyddwyr. Dylech ystyried pwy sy’n defnyddio’ch amgueddfa a phwy sydd ddim, a sut i gynnig profiadau sy’n bodloni disgwyliadau pobl. Gall fod yn rhan o gynllun datblygu cynulleidfaoedd ar wahân, neu yn eich blaengynllun neu gynllun busnes.

# 9 Cynnwys eich defnyddwyr, a gwella eu profiadau

*Er mwyn bodloni'r safon, byddwch angen:*

**9.1**

### Darparu gweithgareddau dysgu a darganfod sy'n sbarduno, gan gynnwys arddangosfeydd a rhaglenni sy'n seiliedig ar eich casgliadau

Dylech gynnig ffyrdd amrywiol i bobl ddysgu. Dylai'r rhain helpu amrywiaeth eang o bobl i gyrchu'ch amgueddfa a'r casgliadau, gan gofio y byddwch angen defnyddio dulliau gwahanol i gysylltu â grwpiau gwahanol.

**9.2**

### Cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr trwy amrywiaeth o weithgareddau mynediad, marchnata a hyrwyddo

Dylech annog pobl i gyrchu'ch casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau trwy hyrwyddo'ch gweithgareddau. Bydd angen i chi roi'r wybodaeth angenrheidiol iddyn nhw elwa i'r eithaf ar yr ymweliad â'ch amgueddfa, neu ddefnyddio sawl cyfrwng gwahanol ac addas i ddysgu mwy am eich casgliadau a'ch gwasanaethau.

ACHREDU AMGUEDDFEYDD

MUSEUM ACCREDITATION

ARTS COUNCIL ENGLAND

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Museums Galleries Scotland
Supporting Scotland's Museums

NORTHERN IRELAND MUSEUMS COUNCIL